# Prosiect Trawsnewid Anabledd Dysgu – Bwletin 1, Mai 2019

## Am beth mae'r prosiect hwn?



- Rydym eisiau gwneud gwasanaethau yn well i bobl ag anableddau dysgu.




- Rydym eisiau sicrhau bod iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio'n well i gefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu




- Mae Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru yn dweud wrthym sut y byddwn yn gwneud hyn.




- Byddwn yn gweithio gyda dinasyddion, gofalwyr, yr Awdurdodau Lleol, BIPBC a chyrff a mudiadau gwirfoddol.
  Bydd pawb yn cael ei gynnwys yn y gwaith a wneir gan y prosiect.

## Cwrdd â'r tîm!




- Byddwn yn gweithio gyda dinasyddion, gofalwyr, yr Awdurdodau Lleol, BIPBC a chyrff a mudiadau gwirfoddol.
  Bydd pawb yn cael ei gynnwys yn y gwaith a wneir gan y prosiect.

## Ble allwch chi ddod o hyd i ni?




- Mae'r tîm wedi'i leoli yn Ewloe ond byddant yn teithio i gwrdd â phobl ar draws Gogledd Cymru

## Pwy ydy'r tîm? Beth fyddan nhw'n ei wneud?

- Dyma enwau pob aelod o'r tîm a beth fyddan nhw'n ei wneud.



- Kathryn Whitfield yw'r rheolwr tîm.



- Bydd Sian Croston yn sicrhau bod staff yn gwybod sut i gyfathrebu'n dda gyda phobl ag anableddau dysgu a newid gwasanaethau i'w gwneud yn haws i'w defnyddio



- Bydd Paul Mazurek yn dod o hyd i ffyrdd i ddefnyddio technoleg megis larymau a ffonau symudol i helpu pobl i fod yn fwy annibynnol



- Bydd Kim Killow yn sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio i gefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu yn well.



- Bydd Liana Duffy yn gweithio gyda'r gymuned leol i wneud yn siŵr bod pobl sydd ag anableddau dysgu yn gallu cael mynediad at lawer o weithgareddau gwahanol a chyfarfod pobl newydd os ydyn nhw eisiau gwneud hynny.



- Bydd Steve Brown yn gweithio gyda sefydliadau eraill i sicrhau bod gennym y mathau o dai a chefnogaeth y mae pobl eu hangen.



- Bydd Paul Hosker yn gweithio gyda BIPBC i wella gwasanaethau iechyd i bobl ag anableddau dysgu.



- Bydd Jeni Andrews yn cysylltu â Chynghorau Sir Ddinbych a Chonwy.



- Bydd Sioned Williams yn cysylltu â Chynghorau Gwynedd ac Ynys Môn.



- Bydd Beverley Futia a Mark John-Williams yn cysylltu â Chynghorau Wrecsam a Sir y Fflint.



## Beth ydyn ni wedi'i wneud hyd yma?




- Rydym wedi rhoi arian i Gyngor Gwirfoddol Ardal pob Awdurdod Lleol i helpu i ddarparu'r strategaeth.



- Rydym wedi rhoi arian i BIPBC i helpu i ddarparu'r strategaeth




- Mae’r tîm yn siarad gyda llawer o bobl i lunio cynllun gweithredu.



- Rydym wedi penodi sefydliad a elwir yn IPC Oxford Brookes fydd yn ein helpu i aros ar y trywydd iawn.

- Rydym yn bwriadu cynnal diwrnod lansio ar 14 Mehefin ac mae yna groeso i bawb!

North Wales Together
Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
Seamless services for people with Learning Disabilities
Gwasanaethau di-dor i bobl ag Anableddau Dysgu



| Name | Workstream | Email Address |
|---|---|---|
| Kathryn Whitfield | Programme Manager | Kathryn.whitfield@flintshire.gov.ul |
| Sian Croston | Workforce Development | Sian.Croston@flintshire.gov.uk |
| Paul Mazurek | Assistive Technology | Paul.Mazurek@flintshire.gov.uk |
| Kim Killow | Integrated Structures | Kim.Killow@flintshire.gov.uk |
| Liana Duffy | Community and Culture Change | Liana.Duffy@flintshire.gov.uk |
| Steve Brown | Commissioning and Procurement | Steve.brown@flintshire.gov.uk |
| Paul Hosker | Health Lead/Link | Paul.Hosker@flintshire.gov.uk |
| Jeni Andrews | Denbighshire/Conwy Link Officer | Jeni.Andrews@flintshire.gov.uk |
| Sioned Williams | Isle of Anglesey/Gwynedd Link Officer | Sioned.Williams@flintshire.gov.uk |
| Beverley Futia | Wrexham/Flintshire Link Officer | Beverley.Futia@flintshire.gov.uk |
| Mark John-Williams | Wrexham/Flintshire Link Officer | Mark.John-Williams@flintshire.gov.uk |